Ymweliad Datblygu Masnach

# Brwsel, Gwlad Belg & Utrecht, Yr Iseldiroedd

**5 – 8 Tachwedd 2018**



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



## Y Cynnig

Rydym yn gwahodd ceisiadau i gymryd rhan mewn Ymweliad Datblygu Masnach i'r Gwlad Belg â'r Iseldiroedd a gefnogir gan Bwyd a Diod Cymru.

Mae'r marchnadoedd bwyd a diod Gwlad Belg a'r Iseldiroedd yn dilyn y tueddiadau byd-eang gan ganolbwyntio ar iechyd, tarddiad / tarddiad bwyd a chynaliadwyedd yn ogystal ag ailymddangosiad coginio o'r dechrau. Mae'r twf yn parhau yn y meysydd canlynol:

- Ffordd iach o fyw - bwydydd 'rhydd-o', llysieuol, 'flexitarian', fegan
- Organig, Masnach Deg
- Bwyd i fynd, bwydydd cyfleus a hawdd i baratoi, meintiau llai/rhannau sengl
- Bwydydd ethnig
- Cwrw crefft gan gynnwys alcohol isel / dim alcohol, heb glwten
- Gwasanaeth Bwyd
- Label Preifat

**"Hwn yw fy ail Ymweliad Datblygu Masnach ac unwaith eto gallaf fynd yn ôl at y busnes gyda mwy o fewnwelediad a chyfleoedd busnes newydd i ddilyn mynnu. Roedd y digwyddiadau wedi eu trefnu yn dda iawn, yn llawn gwybodaeth ac yn werth chweil."**
*Bill Coats-Smith, The Cake Crew*

## Y Rhaglen

**5 Tachwedd** Teithio i Frwsel; Sesiwn friffio'r farchnad; ymweliadau siopau

**6 Tachwedd** Cyfarfodydd gyda phrynwyr, mewnforwyr, dosbarthwyr

**7 Tachwedd** Trosglwyddo i Utrecht; Sesiwn friffio'r farchnad; ymweliadau siopau

**8 Tachwedd** Cyfarfodydd gyda phrynwyr, mewnforwyr, dosbarthwyr; teithio yn ôl i'r DU

## Pam Gwlad Belg?

- Marchnad yn agos i'r DU, tueddiadau tebyg
- Ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o fwyd a diod Prydain
- Mynediad i adwerthwyr Lwcsembwrg a Ffrainc yn ogystal ag Iseldiroedd

## Pam yr Iseldiroedd?

- Llawer o frandiau bwyd newydd arloesol y DU ar eu silffoedd
- Yn cael ei ddisgrifio fel y porth i Ewrop
- Marchnad brawf da ar gyfer cynnyrch rhyngwladol

## Cost

Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at gost yr Ymweliad Datblygu Masnach wedi'i deilwra'n fanwl, a bydd yn costio £1095+TAW y pen* i gymryd rhan. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gweithdy cyn yr ymweliad, gan gynnwys briff llawn ar y daith
- Anfon samplau i'r ddau leoliad (cyfyngiadau'n berthnasol)
- Manylion a brand eich Cwmni yn y catalog cynhyrchwyr a ddosberthir i brynwyr posibl
- Llety gwely a brecwast am dwy noson ym Mrwsel a un noson yn Utrecht trwy drefnydd teithiau enwebedig Llywodraeth Cymru
- Trosglwyddo rhwng Gwlad Belg a'r Iseldiroedd
- Rhaglen yn y farchnad wedi'i theilwra i gynnwys briffiau'r farchnad; cyfarfodydd gyda phrynwyr, mewnforwyr, dosbarthwyr; rhaglenni ymweld â siopau
- Cymorth a chyngor cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad
- Bydd ceisiadau i ymweld ag un wlad yn unig yn cael eu hystyried. E-bostiwch am bris ymweliad un wlad.

**Noder: Er mwyn rhoi hyblygrwydd i chi, bydd angen i chi drefnu teithio eich hun i'r Wlad Belg ac o'r Iseldiroedd ar eich traul eich hun.**

**Dyddiad Cau: 3 Awst 2018**. I wneud cais i gymryd rhan yn yr Ymweliad hwn, llenwch y ffurflen gais yma: https://goo.gl/forms/bSDtXbJsYZgI0Ock1 neu e-bostwich angharad.evans@bic-innovation.com am ffurflen gais.

*Mae'r cynnig hwn ar gael i dday gynrychiolydd o bob cwmni. Bydd angen i unrhyw gynrychiolwyr ychwanegol dalu'r gyfradd lawn heb gymhorthdal (£2,793.91+TAW y pen). Dylai ymgeiswyr nodi bod y cymorth a ddarperir trwy'r cyllid hwn yn gymorth gwladwriaethol de minimis, yn unol â diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund